# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Wendy Fitzgerald | Adran Etholiadol: | Penllergaer |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Wedi llunio tri chylchlythyr anwleidyddol (4 tudalen A4) (mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2012 a mis Ebrill 2014) i'r holl breswylwyr, gan roi'r diweddaraf ar yr holl faterion rwy'n ymdrin â nhw fel aelod ward. Nid wy'n cynnal cymorthfeydd gan fod yn well gennyf ymateb yn syth i unrhyw fater sydd o bryder i breswylydd ac rwyf, fel arfer, yn ymweld o fewn oriau i alwad ffôn neu e-bost. Rwyf wedi llenwi nifer mawr o ffurflenni i etholwyr, ysgrifennu llythyrau ar eu rhan, sawl un at gwmni cyfleustodau, mynd i dribiwnlys i gefnogi un preswylydd ac rwyf yn fynych iawn yn e-bostio swyddogion tai'r cyngor yng Ngorseinon a Grŵp Tai Coastal mewn perthynas â nifer o broblemau tai. Rwyf hefyd wedi cael sawl cyfarfod â swyddogion o'r Adran Priffyrdd a'r Adran Parciau, mynd i gyfarfodydd PACT a hefyd i gyfarfodydd heddlu yng Ngorseinon. Rwyf wedi codi sbwriel yn rheolaidd, golchi arwyddion heol brwnt a thorri llystyfiant yn ôl a oedd yn achosi niwsans ar dir priffyrdd.

Roeddwn yn weithgar iawn wrth sicrhau y daeth Parc Penllergaer yn ddatblygiad a fabwysiadwyd a chyflawnwyd hynny ddiwedd mis Hydref 2013.

Roeddwn yn rhan o dîm a gynhaliodd Ddiwrnod Hwyl yn y Gymuned llwyddiannus iawn ddechrau mis Gorffennaf 2013 i ddathlu 175 mlynedd ers agor Eglwys Dewi Sant. Cynhaliais i a ffrind ddigwyddiad ‘Gerddi Agored’ elusennol ddiwedd mis Gorffennaf 2013 (digwyddiad blynyddol) gan godi dros £1000 at y ‘Forget Me Not Clubs' a chynhaliodd dau grŵp gweithgar yr helpais i'w sefydlu - Icers a Crafters - ddigwyddiadau elusennol dros y Nadolig a'r Pasg y llynedd, gan godi bron £1,100 at Marie Curie a ffibrosis systig.

Rwy'n gynghorydd cymuned ac yn aelod bwrdd o Ymddiriedolaeth Penllegaer, yn aelod o Urdd Menywod Penllergaer ac o Glwb Garddio Penllergaer.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 18 | / | 22 | 82 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 9 | / | 12 | 75 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Thaliadau Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Y cyngor | 15 | / | 15 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 8 | / | 8 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 13 | / | 16 | 81 | % |
| CYFFREDINOL | 65 | / | 76 | 86 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Arweinydd y Grŵp o Gynghorwyr Annibynnol.

Aelod o'r paneli craffu canlynol:

Panel Ymchwilio Cynhwysiad Addysg, Panel Ymchwilio Strydlun, Panel Ymchwilio Tai Cymdeithasol a'r Panel Ymchwilio Diwygio Lles.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi rhoi'r diweddaraf i'r holl breswylwyr am y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'i oblygiadau arwyddocaol ar gyfer Penllergaer trwy fy nghylchlythyr. Cynhaliais gyfarfod cyhoeddus gorlawn fis Medi diwethaf (ar ôl dosbarthu taflenni i'r holl breswylwyr roedd cynigion yr CDLl yn effeithio arnynt) i ateb cwestiynau a rhoi rhagor o wybodaeth. Yn dilyn hynny, rhoddais wybodaeth fanwl i'r pwyllgor archwilio a'r cyngor cymuned.

Brwydrais er lles y gymuned trwy'r 106 o gytundebau ar gyfer Parc Penderi ac rwyf bellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr £50,000 yn cael ei ddefnyddio i wella'r lle chwarae i blant ar Gomin y Gors. Mae'r ymgynghoriad bellach wedi'i gwblhau.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

08/07/2013 - Adolygiad Datblygiad Personol

Roeddwn yn arfer rheoli ysgol iaith arbenigol a hefyd roedd gennyf rôl addysgu yno am sawl blynedd. Rwy'n credu fy mod yn gyfathrebwr ac yn weinyddwr da ac mae'r sgiliau hyn yn ddefnyddiol iawn yng ngwaith fy ward wrth drin achosion anodd i breswylwyr ac ysgrifennu llythyrau ar eu rhan.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rhoddir gwybod i'm hetholwyr am faterion trwy fy nghylchlythyr - mae'r nesaf i'w gyhoeddi ddiwedd mis Gorffennaf 2014 gyda chylchlythyr y cyngor cymuned.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 30.05.14 |